# Coflyfr

## Y Cod Ymddygiad

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Rhifyn 16 Mai 2018

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Dim tystiolaeth o dorri'r cod | 3 |
| Nid oes angen gweithredu | 4 |
| Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau | 6 |
| Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru | 7 |
| Mwy o Wybodaeth | 8 |


# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(ch) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn adrodd ar y cyfnod Ionawr i Mawrth 2018.

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth o dorri'r cod

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn

## Nid oes angen gweithredu

Cyngor Cymuned Llanbedrog – Datgelu a chofrestru buddiannau
Rhif achos: 201700942 a 201702074 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2018

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn fod aelod o Gyngor Cymuned Llanbedrog ("Y Cynghorydd") wedi torri'r Côd Ymddygiad drwy fethu â datgan buddiant pan drafodwyd ei gais cynllunio mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ("y cyfarfod").

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon a oedd y Cynghorydd wedi torri rhannau o'r Côd a oedd yn ymwneud â buddiannau personol a niweidiol. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda'r aelodau hynny o'r Cyngor a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Dangosodd y dystiolaeth bod y Cynghorydd wedi:

- datgan buddiant pan oedd ei gais cynllunio yn cael ei drafod

- nad oedd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth

- na wnaeth adael yr ystafell, ond gan fod yr eitem yn un mor fyr, ni chafodd amser i wneud hynny

- nid oedd yr aelodau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn teimlo bod presenoldeb y Cynghorydd wedi dylanwadu ar eu penderfyniad

Darganfu'r Ombwdsmon fod y Cynghorydd wedi gweithredu yn briodol ac yn unol ag anghenion y Côd Ymddygiad wrth ddatgan buddiant personol pan oedd ei gais cynllunio yn cael ei drafod. Fodd bynnag, roedd y ffaith nad oedd wedi gadael yr ystafell yn torri'r Côd Ymddygiad oherwydd byddai ganddo fuddiant niweidiol yn y mater.

Roedd yr Ombwdsmon yn ystyried bod y toriad wedi cael ei liniaru oherwydd na chymerodd y Cynghorydd unrhyw ran yn y drafodaeth, a chan fod yr eitem yn un mor fyr, ni chafodd y Cynghorydd gyfle i adael yr ystafell cyn i'r eitem ddod i ben. Yn ogystal, nid y Cyngor Cymuned oedd y gwneuthurwr penderfyniadau olaf ynglŷn â materion cynllunio. Cymerodd y farn fod camau gweithredu'r Cynghorydd o bwysigrwydd cyfyngedig.

O dan adran 69(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 2000, darganfu'r Ombwdsmon na oedd angen gweithredu ynglŷn â'r gŵyn.

Cyngor Cymuned Abertyleri & Llanhiledd – Uniondeb
Rhif achos: 201700261 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2018
Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod ("yr aelod") o Gyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd ("y Cyngor") wedi torri'r Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau. Honnwyd bod yr aelod wedi trefnu i swm o arian, a fwriadwyd ar gyfer y Cyngor, gael ei dalu i brosiect cymunedol ("y Prosiect"). Ar adeg y gweithredu y bu cwyno amdano, roedd yr aelod yn Gadeirydd y Cyngor a'r Prosiect fel ei gilydd.

Bu'r Ombwdsmon yn ymchwilio a oedd gweithredu'r aelod yn torri paragraffau 6(1)(a), 7(b)(ii) a 7(b)(iv) o'r Côd Ymddygiad a oedd yn ymwneud â dwyn anfri ar ei swydd neu'i awdurdod, a'r defnydd o adnoddau'r awdurdod.

Darganfu'r Ombwdsmon nad oedd gan y Cyngor unrhyw hawl gyfreithiol i dderbyn yr arian dan sylw, ac felly

ni allai gael ei ystyried fel adnodd a oedd yn perthyn i'r Cyngor. Felly, nid oedd yr aelod wedi torri paragraff 7(b)(ii) na pharagraff 7(b)(iv). Fodd bynnag, roedd yr aelod wedi gweithredu yn amhriodol yn y modd yr oedd wedi cael cyllid ar gyfer y Prosiect, gan gynrychioli'i hun fel ei fod yn gweithredu ar ran y Cyngor, ar draul grwpiau eraill o bosibl, ac felly gall fod wedi bod yn torri paragraff 6(1)(a) wrth ddwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod.

Nododd yr Ombwdsmon fod diffyg profiad yr aelod fel Cadeirydd, y ffaith ei fod yn credu, er drwy gamgymeriad, ei fod yn gweithredu er budd y cyhoedd ac nad oedd wedi cael unrhyw fudd personol o'i weithredu, Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad, at ei gilydd, nad oedd y buddiant cyhoeddus yn gofyn y dylid cyfeirio'r achos at Bwyllgor Safonau na Phanel Dyfarnu Cymru, a phenderfynodd nad oedd angen cymryd unrhyw weithredu pellach.

### Rhif Achos: 201701904 – Datgelu a chofrestru buddiannau
### Cyngor Cymuned Llai – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2018

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn gan aelod o'r cyhoedd bod y Cynghorydd wedi torri'r Côd Ymddygiad ("y Côd") ar gyfer Cyngor Cymuned Llai ("y Cyngor"). Dywedodd yr achwynydd fod y Cynghorydd, mewn cyfarfod o'r Cyngor, wedi methu â datgan buddiant personol – ac wedi cymryd rhan mewn trafodaeth – ynglŷn â chais cynllunio a oedd yn effeithio ar safle o gangen Llai o'r sefydliad elusennol. Mae'r Cynghorydd yn Ysgrifennydd Pwyllgor Cymdeithasol y Clwb Cymdeithasol sydd wedi'i drwyddedu i weithredu o safle'r sefydliad elusennol.

Bu'r Ombwdsmon yn ystyried a oedd, wrth fethu â datgan buddiant personol ac aros yn yr ystafell, y Cynghorydd wedi torri'r Côd. Cymerodd yr Ombwdsmon ddatganiadau tystion gan gynghorwyr eraill a oedd yn bresennol yn y cyfarfod a bu'n cyfweld y Cynghorydd. Pleidleisiodd y Cyngor yn unfrydol i wrthwynebu'r cais cynllunio ac nid oedd unrhyw un o'r tystion yn dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu dylanwadu gan bresenoldeb y Cynghorydd. Roedd rhywfaint o ddryswch ymysg cynghorwyr ynglŷn â'r ffaith a ddylai'r Cynghorydd fod wedi datgan buddiant a thynnu allan. Pan gafodd ei gyfweld, roedd y Cynghorydd yn parhau i feddwl nad oedd gofyn iddo ddatgan buddiant a thynnu allan. Nid y Cyngor oedd yr awdurdod penderfynu, ac felly, dim ond ymgynghori ynglŷn â'r cais oedd yn digwydd.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod buddiant personol y Cynghorydd yn niweidiol ac y dylai fod wedi mynd allan o'r ystafell tra'r oedd y cais yn cael ei ystyried. Fodd bynnag, darganfu'r Ombwdsmon nad oedd y Cynghorydd am elwa yn bersonol o ganlyniad i'r cais cynllunio. Roedd sefyllfa'r Cynghorydd fel Ysgrifennydd y Pwyllgor Cymdeithasol a swyddogaeth y Cyngor wrth benderfynu ar y cais yn ddigon pell oddi wrth y cais er mwyn lliniaru eu heffaith. Roedd yr Ombwdsmon yn ystyried y dryswch cyffredinol ymysg cynghorwyr a'r ffaith nad oedd gan bresenoldeb y Cynghorydd unrhyw ddylanwad ar wrthwynebiad unfrydol y Cyngor i'r cais.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod tystiolaeth awgrymiadol o dorri paragraffau 11(1) ac 14(1)(a)(ii) o'r Côd. Tra bod gan yr Ombwdsmon bryder ynglŷn â'r dryswch ymddangosiadol ymysg cynghorwyr yn gyffredinol ynglŷn â buddiant personol, roedd yn ystyried y byddai hyfforddiant ychwanegol yn ymdrin â hyn. At ei gilydd, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad, er gall fod y Cynghorydd wedi torri dau baragraff o'r Côd, roedd amgylchiadau lliniarol yn bodoli ac nid oedd felly angen gweithredu ymhellach.

## Cyfeiriwyd at y bwyllgor safonau

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â’r canfyddiad hwn

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â’r canfyddiad hwn

## Mwy o wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at Matthew.Aplin@ombwdsmon-cymru.org.uk neu i'r cyfeiriad canlynol:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn 01656 644200
Ffacs 01656 641199

e-bost holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)

Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk